Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

**Ymatebion**

1. Gwariant ar gyflenwadau Swyddfa a chynnyrch cysylltiedig ar gyfer y blynyddoedd ariannol isod.
   1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023
   1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024

   **A1 Ymateb:-**

   **Roedd gwariant Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) ar gyflenwadau swyddfa a chynnyrch cysylltiedig ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 yn £349.55 ddim yn cynnwys TAW. Roedd y gwariant ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 yn £936.22 ddim yn cynnwys TAW.**

2. Dyddiad dechrau a hyd y contract?

   **A2 Ymateb:-**

   **Mae prynu Cyflenwadau Swyddfa a chynnyrch cysylltiedig yn digwydd yn ôl y galw gan ddefnyddio dau Gytundeb Fframwaith Cyflenwi Masnachol Llywodraeth Cymru. Rhoddir manylion y Cytundebau Fframwaith a ddefnyddir isod:**

   **Fframwaith Cyflenwi Masnachol Deunydd Ysgrifennu a Phapur Copïwr Llywodraeth Cymru (Cyf: WGCD-PSC-111-21)**

   **Cytundeb Fframwaith Cyflenwi Masnachol Cynhyrchion a Gwasanaethau TG (ii) GCC TGCh Cymru gyfan Llywodraeth Cymru (ITPS2) (Cyf: NPS-ICT-0094-19)**

3. A oes cymal ymestyn yn y contract ac, os felly, beth yw hyd yr estyniad?

   **A3 Ymateb:-**

   **Nid oes unrhyw gymalau ymestyn yn unrhyw un o'r contractau a gytunir o dan y Cytundebau Fframwaith a restrir uchod.**

4. A wnaed penderfyniad eto ynglŷn ag yw'r contract i gael ei ymestyn neu ei adnewyddu?

   **Ymateb A4:-**

   **Nid oes unrhyw gymalau ymestyn yn unrhyw un o'r contractau a gytunir o dan y Cytundebau Fframwaith a restrir uchod.**

5. Pwy yw'r uwch swyddog (oni bai am gaffael) sy'n gyfrifol am y contract?

   **A5 Ymateb:- Sarah Jenkins, Rheolwr y Swyddfa AD**

6. Enw'r Cyflenwr ar hyn o bryd?

   **A6 Ymateb:-**

   **Y cyflenwr a ddefnyddiwyd o dan Fframwaith Cyflenwi Masnachol Deunydd Ysgrifennu a Phapur Copïwr Llywodraeth Cymru (Cyf: WGCD-PSC-111-21) oedd Lyreco.**

   **Y cyflenwr a ddefnyddiwyd o dan Gytundeb Fframwaith Cyflenwi Masnachol Cynhyrchion a Gwasanaethau TG (ii) GCC TGCh Cymru gyfan Llywodraeth Cymru (ITPS2) (Cyf: NPS-ICT-0094-19) oedd XMA Ltd**

7. Ers faint ydych chi wedi bod yn masnachu gyda nhw?

   **A7 Ymateb:-**

   **Mae ACC wedi masnachu gyda Lyreco ac XMA Ltd o dan y fframweithiau a enwir ac iteriadau blaenorol Cytundebau Fframwaith Llywodraeth Cymru uchod ers 2018.**

8. Os ydych chi'n cyhoeddi eich cofrestr o gontractau a phryniannau, allwch chi roi dolen i'r wefan os gwelwch yn dda.

   **A8 Ymateb:-**

   **Prif wefan cyrchu ACC yw www.gwerthwchigymru.llyw.cymru. Mae holl bryniannau ACC dros £10,000 hefyd yn cael eu cyhoeddi ar y wefan hon.**

9. Yn ogystal, allwch chi gadarnhau a oes gennych chi gontract ar waith ar gyfer Mân Wariant

   **A9 Ymateb:-**

   **Nid oes gan ACC gontract ar waith ar gyfer Mân Wariant.**